OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1977 (Cy.176)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Gorffennaf 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *21 Gorffennaf 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *21 Gorffennaf 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 46, 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enw, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009 a deuant i rym ar 21 Gorffennaf 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004(**2**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 (cyffuriau neu feddyginiaethau i'w harchebu o dan amgylchiadau penodol yn unig), yn y cofnod am y cyffur Zanamivir (Relenza)—

(a) Rhif er y paragraff cyfredol am y cofnod yng ngholofn 2 yn "(1)"; a

(b) mewnosoder yng ngholofnau 2 a 3 yn y drefn honno—

| | |
|---|---|
| "(2) Adult and child patients where—<br>the supply of drugs is—<br>(a) made— | Treatment and prophylaxis of influenza". |

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2004/1022 (Cy.119); diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2005/366 (Cy.32) a chan O.S. 2009/1838 (Cy.166).

(i) while a disease is pandemic, or

(ii) in anticipation of a disease being imminently pandemic, and is a serious risk,

or is potentially a serious risk, to human health;

and

(b) in accordance with a protocol relating to that disease as provided for in article 12F of the Prescription Only Medicines (Human Use) Order 1997(**3**) or article 8 of the Medicines (Pharmacy and General Sale-Exemption) Order 1980(**4**).

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

20 Gorffennaf 2009

(**3**) O.S. 1997/2044.
(**4**) O.S. 1980/1924.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau") sy'n gwneud darpariaeth o ran y cyffuriau, meddyginiaethau neu sylweddau eraill y caniateir eu harchebu ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn ystyr adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Atodlen 2 i'r prif Reoliadau (cyffuriau neu feddyginiaethau i'w harchebu o dan rai amgylchiadau yn unig) er mwyn ychwanegu amgylchiadau pellach pryd y caniateir archebu'r cyffur Zanamivir (Relenza) o dan y cyfryw gontract i gynnwys clefyd pandemig (fel ffliw pandemig) sy'n gadael iechyd pobl yn agored i risg difrifol neu risg difrifol posibl (neu os rhagwelir y bydd y cyfryw glefyd ar ddod yn fuan) a bod cyflenwi'r cyffuriau yn unol â phrotocol sy'n ymwneud â'r clefyd hwnnw fel y darperir ar ei gyfer yn erthygl 12F o Orchymyn Meddyginiaethau drwy Bresgripsiwn yn Unig (I'w Defnyddio gan Bobl) 1997 neu erthygl 8 o Orchymyn Meddyginiaethau (Gwerthiant Fferyllfeydd a Gwerthiant Cyffredinol-Esemptiad) 1980.